Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

11eg o Fedi, 2020

Annwyl Riant/ Warcheidwad,

Rydyn ni nawr wedi cyrraedd diwedd yr wythnos lawn gyntaf ac mae pawb yn awr wedi cael cyfle i ddychwelyd i'r ysgol. Mae'n braf cael y teimlad o ysgol sy'n llawn a disgyblion sydd ar waith. Rydyn ni'n parhau i adolygu ein trefniadau newydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n cadw eich plant yn ddiogel a rhoi'r ddarpariaeth gorau posib iddynt i gefnogi eu lles a'u cynnydd academaidd. Mae rhai pwyntiau wedi codi dros y dyddiau diwethaf sydd wedi ein gorfodi i wneud newidiadau i rai o'n trefniadau ond mae'r mwyafrif wedi llwyddo. Rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar sut mae disgyblion yn symud o amgylch y safle rhwng gwersi ac yn ystod egwyl a chinio. Mae hwn wedi dangos bod ambell achos yn ystod yr wythnos ble mae llwybrau disgyblion yn croesi. Er mwyn dilyn y canllawiau cenedlaethol bydd angen i ni felly ymestyn ein defnydd o orchuddion wyneb neu fygydau o amgylch yr ysgol. O ddydd Llun byddwn ni'n gofyn i ddisgyblion gwisgo eu gorchuddion wyneb/mygydau wrth symud o amgylch y safle yn ystod y dydd.

Ar ddydd Llun bydd y ffreutur yn agor am y tro cyntaf eleni. Mae'r cwmni sy'n rhedeg y ffreutur wedi bod yn gweithio i ddarparu system di-arian ar gyfer talu am fwyd. Yn anffodus nid yw hwn yn barod eto ac felly bydd y ffreutur dal yn defnyddio arian tan ddiwedd y mis. Er mwyn sicrhau taliadau diogel bydd staff y gegin yn defnyddio menig a diheintydd wrth drafod arian. Ni fydd yr arian sy'n cael ei gasglu yn cael ei defnyddio ar gyfer newid. Bydd y staff yn defnyddio tiliau gwahanol i gasglu a dosbarthu arian - bydd unrhyw newid yn dod o arian sydd wedi bod mewn diheintydd dros nos.

Bydd pob blwyddyn yn cael amser penodol i fynd i'r ffreutur a bydd hwn ar rota. Er mwyn eu diogelu yn y ciw byddwn ni'n gofyn iddynt wisgo gorchudd wyneb neu fwgwd. Bydd byrddau yn y neuadd a'r ffreutur gyda disgyblion yn bwyta gyda'i grwpiau cyswllt. Gall ddisgyblion dewis dod a phecyn bwyd, a byddant yn bwyta hwn yn y neuadd neu'r ffreutur gyda'r disgyblion yn eu grŵp cyswllt.

Mae'n braf medru trafod materion tu allan i effeithiau COVID yn fy neges i chi. Mae darpariaeth gwersi offerynnol y sir yn ail-gychwyn yn fuan. Maen nhw wedi darparu cyflwyniad am eu gwasanaethau: **Taith Peri Gwasanaeth Cerdd Ceredigion 2020 - <https://youtu.be/1HJ47BkgwJY>.** Os mae diddordeb gennych yn y ddarpariaeth hon, atodaf lythyr oddi wrthynt gyda mwy o fanylion.

Gwerthfawrogwn yr adborth a'r cwestiynau codwyd yn y sesiynau agored gyda rhieni, gyda ffocws clir ar effaith y cyfnod clo ar arholiadau TGAU. Erbyn nawr, mae'r adrannau wedi nodi'r newidiadau i gyrsiau TGAU ar 'ShowMyHomework'. Byddaf yn cynnal sesiwn arall ar ddiwedd pythefnos er mwyn i rieni roi adborth neu ofyn cwestiynau. Wrth gwrs gallwch gysylltu gyda'r arweinydd cynnydd a lles os mae gennych gwestiwn penodol am eich plentyn, neu anfon neges i mi neu unrhyw aelod o'r tîm arwain os oes cwestiynau am agweddau ysgol-gyfan.

Dymunaf benwythnos da i chi oll

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

September 11th, 2020

Dear Parent / Guardian,

We have reached the end of the first full week and everyone has now had the opportunity to return to school. It's nice to have the feeling of a school that is packed with pupils at work. We are continuing to review our new arrangements to ensure that we keep your children safe and provide them with the best possible provision to support their wellbeing and academic progress. Some points have come up over the last few days which have forced us to make changes to some of our arrangements but most have been successful. We have looked carefully at how pupils move around the site between lessons and during break and lunch. This has shown that there are a few instances during the week where pupil paths cross. In order to follow the national guidelines we will therefore need to extend our use of face coverings or masks around the school. From Monday we will be asking pupils to wear their face coverings/masks when moving around the site during the day.

On Monday the canteen will open for the first time this year. The company that runs the canteen has been working to provide a cashless system for paying for food. Unfortunately this is not yet ready and so the canteen will still use money until the end of the month. To ensure safe payments, kitchen staff will use gloves and sanitiser when handling money. The money collected will not be used for change. Staff will use different tills to collect money and distribute change - any change comes from money that has been in disinfectant overnight.

Each year group will have a set time to go to the canteen and this will be on a rota. To protect them in the queue we ask them to wear a face covering or mask. There will be tables in the hall and the canteen with pupils eating with their contact groups. Pupils can choose to bring a packed lunch, which they eat in the hall or canteen with the pupils in their contact group.

It's nice to be able to discuss issues outside the effects of COVID in my message to you. The county's instrumental tuition provision is restarting soon. They have provided a presentation about their services: Peri Tour Ceredigion Music Service 2020 - <https://youtu.be/1HJ47BkgwJY>. If you are interested in this provision, I attach a letter from them with more details.

We appreciate the feedback and questions raised in the open sessions with parents, and a clear focus is the impact of the lockdown period on GCSE examinations. By now, departments have noted the changes to GCSE courses on ShowMyHomework to give you an outline of changes. I will be holding another session at the end of two weeks for parents to give feedback or ask questions. Of course you can contact the progress and wellbeing leader if you have a specific question about your child, or send a message to me or any member of the leadership team if there are questions about whole-school aspects.

I wish you all a good weekend

Dr Rhodri Thomas
(Headteacher)